## Magnox Socio-economic Funding in the Community

### 2019/20 Socio-economic scheme update

Magnox are pleased to have supported 15 applications from communities surrounding Wylfa site this financial year. This equates to £176,841 through the scheme.

In addition, a further £1,045,000 NDA direct funding has also been committed to the area with £400,000 for Menter Môn's Morlais Tidal Project over two years, an additional £150,000 for the Cemaes CIC Capel Bethlehem Project and £495,000 over three years, to Isle of Anglesey County Council to assist in delivering the North Anglesey Regeneration Plan.

### New groups that have benefited from the Good Neighbour level funding this year are:




**Anglesey and Gwynedd School Sports Awards** received £150 for the Primary School of the Year award. Stuart Law attended the ceremony held in Beaumaris to present the award. Over 300 people attended the evening.

**Moelfre Rowing Club** were awarded £780 to purchase a new trailer for their sea sculling boat. This will provide at least four opportunities for club volunteers to train as coaches and involves the use of the boat to offer the sport to primary and secondary school children.

**Cemaes Boat Club** received £550 to purchase a walkie talkie and new life jackets for the 14 crew members of the historic Charles Henry Ashley lifeboat.

**Blagur Haf Caergeiliog** had £350 towards outdoor educational play equipment. The todders will benefit from two new rear step plate trikes, a pumping station, plastic water channeling gutters and a trundle bike.

**Amlwch Pre-school Playgroup, Cylch Meithrin Amlwch and Benllech Playgroup** all benefitted from a contribution towards education equipment too.

**Mon Actif** were awarded £1,000 to host four Magnox sponsored one day events at the Leisure Centres across Anglesey. They will offer football, swimming, athletics, rugby, netball, tennis and a variety of multi-sport games. The funding will help 25 young people gain a Community Sports Leaders Level 2 Qualification.

**Parys Training** were able to purchase ten Windows 10 desktop pc's with £1,000 from the scheme. It is anticipated this will assist with training for over 150 individuals using the facilities.

## Larger transformational projects supported:

**Anglesey Column Trust** formed to restore the Grade II* listed Marquess of Anglesey Column. The £966,000 project will restore the column as a tourist attraction and remodel the cottage as a visitor education centre and café. The £70,000 contribution from Magnox will fund the bilingual interpretation scheme. The project aims to open by September 2021 and anticipates ten employment opportunities, over 40 voluntary opportunities, new businesses created with the visitor centre and café and engage with 26 local schools, Bangor University and Grŵp Llandrillo Menai offering educational programmes.

## NDA directly funded:

### Morlais Tidal Energy Project

Morlais held a supply chain event in MSParc on 5 March which was very well attended. In the morning Llinos Medi Huws, Leader of Anglesey County Council, spoke. Selkie, Bangor University and Minesto gave presentations and Gerallt Llewelyn Jones gave a progress update on the Morlais project.

Local businesses had an opportunity to present in the afternoon closing with a Q and A session.

Menter Môn is currently building a Supply Chain database which holds almost 400 Welsh businesses, of which 146 from North Wales. Many are experienced local companies who have benefitted from working with Magnox and Anglesey Aluminium in the past.







*Gerallt Llewelyn Jones, Morlais Senior Responsible Officer delivering a presentation*

Menter Môn received NDA direct funding of £400,000 over two years for Morlais B - the next phase of the project. This is progressing well: consent and licensing applications have been submitted to Welsh Government Planning Inspectorate and Natural Resources Wales, awaiting a decision from Welsh Ministers. If approved, this will release £27k European funding to which they require £9m match funding for the infrastructure build.

### New North Anglesey Regeneration Fund launched

A new North Anglesey Regeneration Fund, managed by Anglesey County Council has opened, offering grants to help businesses and support local events.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

As part of the £495,000 funding committed by the NDA, a new £50,000 funding pot is available for small grants of up to £5,000 to help businesses and community groups in the Talybolion and Twrcelyn wards, and the community of Moelfre (as identified in the North Anglesey Economic Regeneration Plan).

The fund will provide small grants for suitable projects aimed at supporting economic growth, promoting the Welsh language, creating jobs and improving skills, partnership working, protecting the environment and creating sustainable communities.

The fund is split into two rounds; applications must be submitted by 31 March 2020 for the first round and by 31 May 2020 for the second.

Funding criteria and application forms can be found at www.anglesey.gov.uk/northangleseyregenfund

The current scheme is now closed for new applications as we transition to a new 'One NDA' system from 1 April 2020. The system is currently being tested. Further details will be available soon on the .gov website.

We will share details of the guidance and criteria once the new system is up and running.

If you need any further information in the meantime, please contact:

For applications up to £1,000 –
Michelle Humphreys, michelle.humphreys@magnoxsites.com, Tel. 01407 733953

Or for applications over £1,000 –
Mair Jones, mair.jones@magnoxsites.com, Tel. 01407 733952

| Magnox socio-economic scheme report 2019/20 | | | | | | Period 12 Wales |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Site breakdown by funding aim** | | | | | | |
| **Wylfa** | **Organisation** | **Funding aim** | **Funding request** | **Funding awarded** | **Match funding** | **Description/outcome** |
| | Bryngwran Bulls FC | Good neighbour | £500 | | £500 | Second hand changing faciltities from Aberffraw FC - Change of plan, team nerged with Trearddur Bay FC |
| 1 | Anglesey & Gwynedd School Sports Awards 2019 | Good neighbour | £150 | £150 | £1,200 | Sponsorship: Primary School of the Year Category |
| 2 | Cemaes Bay FC | Good neighbour | £484 | £484 | £0 | Training equipment and Buffalo Burger Grill |
| 3 | Montage Writing Festival | Good neighbour | £774 | £406 | £1,677 | 7 Literature Workshop Tutors and publicity materials |
| 4 | Cybi Striders | Good neighbour | £130 | £130 | £350 | Purchase six Magnox branded wooden carved trophies, made by a local supplier for the 5k Holyhead Breakwater Park race. |
| 5 | Cemaes Carnival | Good neighbour | £901 | £901 | £1,268 | Purchase re-usable banners, hi-viz tabards for volunteer marshals and chairs for marquee |
| 6 | Moelfre Rowing Club | Good neighbour | £780 | £780 | £7,140 | Sculling boat trailer |
| 7 | Benllech Playgroup | Good neighbour | £999 | £350 | £0 | Purchase educational equipment |
| 8 | Blagur Haf Caergeiliog | Good neighbour | £1,000 | £350 | £1,014 | Purchase maths educational equipment |
| 9 | Amlwch Pre-school Playgroup | Good neighbour | £300 | £300 | £0 | Craft materials |
| 10 | Cylch Meithrin Amlwch | Good neighbour | £796 | £440 | £360 | Circular water table and giant san table for outdoors |
| 11 | Mon Actif | Good neighbour | £1,000 | £1,000 | £1,500 | 25 x Level 2 Community Sports Leadership Qualification |
| 12 | Cemaes Boat Club | Good neighbour | £550 | £550 | £500 | Purchase walkie talkie and 14 life jackets |
| 13 | Parys Training | Good neighbour | £1,000 | £1,000 | £5,932 | Purchase 10 Windows 10 desk top PCs |
| | **Sub total** | **13** | **£5,718** | **£6,841** | **£13,149** | |
| | | Sustainable Communities | | | | |
| | | **0** | **£0** | **£0** | **£0** | |
| 1 | Mon Communities Forward, Appl. 2871, year 3 | Mitigation | | £100,000 | | Match funding captured year 1 |
| 2 | Anglesey Colunm Trust | Mitigation | £70,000 | £70,000 | £896,000 | Fund the bilingual interpretation element of the project. Re-open the Marquess of Anglesey Column as a visitor centre attraction and café. |
| | **Sub total** | **2** | **£0** | **£170,000** | **£0** | |
| | **Total Magnox funding** | **15** | **£5,718** | **£176,841** | **£13,149** | |
| | **Applications transferred to the NDA** | | | | | |
| 1 | Menter Mon, Morlais Project | | £400,000 | £200,000 | £486,514 | Funding to complete all consent and preparatory works to fully capitalise the asset over two years. |
| 2 | Anglesey County Council, North Anglesey Regeneration | | £495,000 | £110,000 | £515,000 | £495k supported in principle over three years. |
| 3 | Capel Bethlehem Project | | £150,000 | £150,000 | | Additional £150k commitment from the NDA for phase one |
| | **Total NDA funding** | **3** | **£1,045,000** | **£460,000** | **£1,001,514** | |
| | Wylfa total funding | 18 | £1,050,718 | £636,841 | £1,014,663 | |

## Cyllid Economaidd-gymdeithasol Magnox yn y Gymuned

### Y diweddaraf am gynllun economaidd-gymdeithasol 2019/20

Mae Magnox yn falch o fod wedi cefnogi 15 o geisiadau gan gymunedau o amgylch safle Wylfa yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cyfateb i £176, 841 drwy'r cynllun.

Yn ogystal â hyn, mae £1,045,000 o gyllid uniongyrchol gan yr NDA wedi cael ei neilltuo i'r ardal: £400,000 ar gyfer Prosiect Llanw Morlais, Menter Môn, dros ddwy flynedd, £150,000 arall ar gyfer Prosiect Capel Bethlehem CIC Cemaes a £495,000 dros dair blynedd i Gyngor Sir Ynys Môn i'w gynorthwyo i gyflawni Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn.

#### Dyma rai o'r grwpiau newydd sydd wedi elwa o arian lefel Cymydog Da eleni:




Cafodd **Gwobrau Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn** £150 ar gyfer gwobr Ysgol Gynradd y Flwyddyn. Roedd Stuart Law yn bresennol yn y seremoni ym Miwmares i gyflwyno'r wobr. Daeth dros 300 o bobl i'r noson.

**Glwb Rhwyfo Moelfre** Rhoddwyd £780 i'r clwb i brynu trelar newydd ar gyfer eu cwch rhwyfo ar y môr. Bydd hyn yn rhoi o leiaf bedwar cyfle i wirfoddolwyr y clwb hyfforddi fel hyfforddwyr ac mae'n golygu defnyddio'r cwch i gynnig y gamp i blant ysgol gynradd ac uwchradd.

**Clwb Cychod Cemaes** Cafodd y clwb £550 i brynu 'walkie talkie' a siacedi achub newydd ar gyfer yr 14 aelod o fad achub hanesyddol Charles Henry Ashley.

Cafodd **Blagur Haf Caergeiliog** £350 tuag at offer chwarae addysgol yn yr awyr agored. Bydd y plant bach yn elwa o ddau feic bach tair olwyn, gorsaf bwmpio, gwteri dŵr plastig a beic ag olwynion bach.

Gwelwyd **Cylch Chwarae Cyn Ysgol Amlwch, Cylch Meithrin Amlwch a Chylch Chwarae Benllech** i gyd yn elwa o gyfraniad tuag at offer addysgol hefyd.

**Môn Actif** Cafodd £1,000 er mwyn cynnal pedwar digwyddiad undydd wedi'u noddi gan Magnox mewn Canolfannau Hamdden ledled Ynys Môn. Byddant yn cynnig cyfleoedd pêl-droed, nofio, athletau, rygbi, pêl-rwyd, tennis ac amrywiaeth o gemau aml-chwaraeon. Bydd

yr arian yn helpu 25 o bobl ifanc i ennill Cymhwyster Lefel 2 Arweinwyr Chwaraeon Cymunedol.

Prynodd **Hyfforddiant Parys** ddeg cyfrifiadur bwrdd gwaith Windows 10 gyda £1,000 o'r cynllun. Rhagwelir y bydd hyn yn helpu gyda hyfforddiant ar gyfer dros 150 o unigolion sy'n defnyddio'r cyfleusterau.

## Y prosiectau trawsnewid mawr a gefnogir:

Cafodd **Anglesey Column Trust** ei chreu i adfer Colofn y Marcwis sy'n rhestredig Gradd II*. Bydd y prosiect £966,000 yn adfer y golofn fel atyniad i dwristiaid ac yn ailfodelu'r bwthyn fel caffi a chanolfan addysg i ymwelwyr. Bydd y cyfraniad o £70,000 gan Magnox yn ariannu'r cynllun cyfieithu/dehongli dwyieithog. Nod y prosiect yw agor erbyn mis Medi 2021 a rhagwelir y bydd y caffi a'r ganolfan ymwelwyr yn arwain at greu deg o swyddi newydd, dros 40 o gyfleoedd gwirfoddoli a busnesau newydd. Bydd y prosiect yn ymgysylltu hefyd â 26 o ysgolion lleol, Prifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai sy'n cynnig rhaglenni addysgol.

## Y prosiectau a gaiff eu hariannu'n uniongyrchol gan yr NDA:

### Prosiect Ynni'r Llanw Morlais

Cynhaliodd Morlais ddigwyddiad cadwyn gyflenwi yn MSParc ar 5 Mawrth a oedd yn boblogaidd iawn. Siaradodd Llinos Medi Huws, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn yn y bore. Cafwyd cyflwyniadau gan Selkie, Prifysgol Bangor a Minesto a rhoddodd Gerallt Llewelyn Jones y diweddaraf am hynt prosiect Morlais.

Cafodd busnesau lleol gyfle i gyflwyno yn y prynhawn drwy gloi gyda sesiwn Holi ac Ateb.

Mae Menter Môn wrthi'n creu cronfa ddata Cadwyn Gyflenwi sy'n cynnwys bron i 400 o fusnesau o Gymru, y mae 146 ohonynt wedi'u lleoli yn y gogledd. Mae llawer ohonynt yn gwmnïau lleol profiadol sydd wedi elwa o weithio gyda Magnox ac Alwminiwm Môn yn y gorffennol.







*Gerallt Llewelyn Jones, Uwch Swyddog Cyfrifol Morlais yn rhoi cyflwyniad*

Derbyniodd Menter Môn gyllid uniongyrchol gwerth £400,000 gan yr NDA dros ddwy flynedd ar gyfer Morlais B - cam nesaf y prosiect. Mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo'n dda: mae ceisiadau cydsynio a thrwyddedu wedi cael eu cyflwyno i Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'r Fenter yn disgwyl am benderfyniad gan Weinidogion Cymru. Os cânt eu cymeradwyo, bydd £27k o gyllid Ewropeaidd yn cael ei ryddhau a bydd angen £9m o gyllid cyfatebol arnynt i adeiladu'r seilwaith.

**Lansio Cronfa Adfywio Newydd Gogledd Ynys Môn**

Mae Cronfa Adfywio newydd Gogledd Ynys Môn, a reolir gan Gyngor Sir Ynys Môn, wedi agor gan gynnig grantiau i helpu busnesau a chefnogi digwyddiadau lleol.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Fel rhan o'r £495,000 o gyllid a ymrwymwyd gan yr NDA, mae cronfa gyllido newydd ar gael sy'n werth £50,000 ar gyfer grantiau bach hyd at £5,000 i helpu busnesau a grwpiau cymunedol yn wardiau Talybolion a Thwrcelyn, ac yng nghymuned Moelfre (fel y nodir yng Nghynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn).

Bydd y gronfa'n darparu grantiau bach ar gyfer prosiectau addas sydd â'r nod o gefnogi twf economaidd, hybu'r Gymraeg, creu swyddi a gwella sgiliau, gweithio mewn partneriaeth, gwarchod yr amgylchedd a chreu cymunedau cynaliadwy.

Rhennir y gronfa yn ddwy rownd; rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 31 Mawrth 2020 ar gyfer y rownd gyntaf ac erbyn 31 Mai 2020 ar gyfer yr ail.

Mae modd gweld y meini prawf cyllido a'r ffurflenni cais yn www.anglesey.gov.uk/northangleseyregenfund

Mae'r cynllun presennol ar gau nawr i geisiadau newydd wrth i ni drosglwyddo i system newydd hefo 'One NDA' o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Mae'r system yn cael ei phrofi ar hyn o bryd. Bydd rhagor o fanylion ar gael cyn bo hir ar wefan .gov.

Byddwn yn rhannu manylion y canllawiau a'r meini prawf unwaith y bydd y system newydd ar waith.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi yn y cyfamser, cysylltwch â:

Ar gyfer ceisiadau hyd at £1,000 –
Michelle Humphreys, michelle.humphreys@magnoxsites.com, Ffôn 01407 733953

Neu ar gyfer ceisiadau dros £1,000 –
Mair Jones, mair.jones@magnoxsites.com, Ffôn 01407 733952

| Adroddiad cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox 2019/20 | | | | | Cyfnod 12 Wylfa | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad ar gyfer y safle yn ôl nod cyllido** | | | | | | |
| **Wylfa** | **Sefydliad** | **Nod cyllid** | **Cais am gyllid** | **Cyllid a ddyfarnwyd** | **Cyllid cyfatebol** | **Disgrifiad/canlyniad** |
| | CPD Teirw Bryngwran | Cymydog Da | £500 | | £500 | Cyfleusterau newid ail law gan CPD Aberffraw - cynllun newydd, unodd y tîm â CPD Bae Trearddur |
| 1 | Gwobrau Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn 2019 | Cymydog Da | £150 | £150 | £1,200 | Nawdd: Categori Ysgol Gynradd y Flwyddyn |
| 2 | CPD Bae Cemaes | Cymydog Da | £484 | £484 | £0 | Offer hyfforddi a Buffalo Burger Grill |
| 3 | Gŵyl Ysgrifennu 'Montage' | Cymydog Da | £774 | £406 | £1,677 | 7 Tiwtor Gweithdy Llenyddol a deunyddiau cyhoeddusrwydd |
| 4 | Cybi Striders | Cymydog Da | £130 | £130 | £350 | Prynu chwe thlws pren gyda brand Magnox arnynt, wedi'u cerfio gan gyflenwr lleol ar gyfer ras 5k Parc Morglawdd Caergybi. |
| 5 | Carnifal Cemaes | Cymydog Da | £901 | £901 | £1,268 | Prynu baneri y gellir eu defnyddio dro ar ôl tro, festiau llachar ar gyfer stiwardiaid gwirfoddol a chadeiriau ar gyfer y babell fawr |
| 6 | Clwb Rhwyfo Moelfre | Cymydog Da | £780 | £780 | £7,140 | Trelar ar gyfer cychod rhwyfo |
| 7 | Grŵp Chwarae Benllech | Cymydog Da | £999 | £350 | £0 | Prynu offer addysgol |
| 8 | Blagur Haf Caergeiliog | Cymydog Da | £1,000 | £350 | £1,014 | Prynu offer addysgol - mathemateg |
| 9 | Grŵp Chwarae Cyn Ysgol Amlwch | Cymydog Da | £300 | £300 | £0 | Deunyddiau crefft |
| 10 | Cylch Meithrin Amlwch | Cymydog Da | £796 | £440 | £360 | Bwrdd dŵr crwn a bwrdd tywod enfawr ar gyfer yr awyr agored |
| 11 | Môn Actif | Cymydog Da | £1,000 | £1,000 | £1,500 | 25 x Cymhwyster Arwain Chwaraeon Cymunedol Lefel 2 |
| 12 | Clwb Cychod Cemaes | Cymydog Da | £550 | £550 | £500 | Prynu "walkie talkie" a 14 siaced achub |
| 13 | Hyfforddiant Parys | Cymydog Da | £1,000 | £1,000 | £5,932 | Prynu 10 Cyfrifiadur bwrdd gwaith Windows 10 |
| | **Is-gyfanswm** | **13** | **£5,718** | **£6,841** | **£13,149** | |
| | | Cymunedau Cynaliadwy | | | | |
| | | **0** | **£0** | **£0** | **£0** | |
| 1 | Môn Communities Forward, Cais 2871, blwyddyn 3 | Lliniaru | | £100,000 | | Arian cyfatebol a gafwyd ym mlwyddyn 1 |
| 2 | Anglesey Column Trust | Lliniaru | £70,000 | £70,000 | £896,000 | Ariannu'r gwaith o gyfieithu/dehongli'r prosiect (dwyieithog). Ailagor Colofn Marcwis fel caffi a phrif atyniad i ymwelwyr. |
| | **Is-gyfanswm** | **2** | **£0** | **£170,000** | **£0** | |
| | **Cyfanswm cyllid Magnox** | **15** | **£5,718** | **£176,841** | **£13,149** | |
| | **Ceisiadau a drosglwyddwyd i'r NDA** | | | | | |
| 1 | Menter Môn, Prosiect Morlais | | £400,000 | £200,000 | £486,514 | Cyllid i gwblhau'r holl waith cydsynio a pharatoi er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr ased dros ddwy flynedd. |
| 2 | Cyngor Sir Ynys Môn, Adfywio Gogledd Ynys Môn | | £495,000 | £110,000 | £515,000 | £495k wedi'i gefnogi mewn egwyddor dros dair blynedd. |
| 3 | Prosiect Capel Bethlehem | | £150,000 | £150,000 | | Yr NDA wedi ymrwymo £150k ychwanegol ar gyfer cam un |
| | **Cyfanswm cyllid yr NDA** | **3** | **£1,045,000** | **£460,000** | **£1,001,514** | |
| | Cyfanswm cyllid Wylfa | 18 | £1,050,718 | £636,841 | £1,014,663 | |